

Y Gweithiwr Anabledd Teulu

Ystyried y rôl a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i deuluoedd.

Crynodeb Ebrill 2022



Mae llesiant emosiynol, corfforol a chymdeithasol plant ag anableddau yn bwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rydym am sicrhau eu bod yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt. Un rhan o'n tîm yw'r Gweithiwr Anabledd Teulu (GAT). Mae hon yn rôl newydd sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar i gefnogi rhieni a gofalmwr plant ag anabledd.

Roeddem am ystyried pa wahaniaeth roedd y rôl hon yn ei wneud, felly fe ofynnwn ni i Dr Ceryl Teleri Davies o Brifysgol Bangor wneud y gwerthusiad hwn.



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



Pam mae hyn yn bwysig

Mae anghenion plant ag anabledd yn mynd yn fwy cymhleth. (*Improving Lives Programme, 2018*). Rydyn ni am ddeall beth sydd ei angen ar deuluoedd a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i ddiwallu'r anghenion hyn ar draws Conwy.

Sut


Arolygon



23 o weithwyr
proffesiynol



5 rhiant/gofalwr
wedi cymryd rhan.


**Cyfweliadau lled-
strwythuredig**



23 o weithwyr
proffesiynol



3 rhiant/gofalwr
wedi cymryd rhan.



Beth ddysgodd yr astudiaeth?

Dysgodd y gwerthusiad lawer o bethau gwahanol gan gynnwys:

- 1.** Bod oedi cyn cael diagnosis arbenigol ar niwroddatblygiad yn effeithio ar y teulu cyfan. Roedd hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw ddelio ag ymddygiad a oedd yn achosi niwed i lesiant eu plentyn.
- 2.** O ganlyniad i ddelio â'r ymddygiadau hyn, roedd teuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac wedi'u hynysu.
- 3.** Roedd teuluoedd yn aml yn wynebu heriau fel tai gwael, tai gorllawn a thlodi.
- 4.** Pan oedd gwasanaethau'n cydweithio i roi cymorth, roedd hynny'n cael effaith fawr ar y canlyniadau llesiant i'r teulu cyfan.

Canfyddiadau eraill

Gwelwyd anghenion tebyg ar draws y teuluoedd:

- Anghenion dysgu a diagnosis o anabledd dysgu
- Problemau lleferydd ac iaith, gan gynnwys problemau cyfathrebu
- Hwyliau isel a phryderon o ran iechyd meddwl
- Meddwl am hunan-niweidio a hunanladdiad
- Ymddygiadau sylweddol a oedd yn peri pryder.
- Stigma, cywilydd, allgáu cymdeithasol, ac ynysu cymdeithasol
- Anghenion ariannol gan gynnwys ar gyfer offer a chymorth gyda ffurflenni budd-daliadau
- Heriau i rieni/gofalwyr wrth geisio cyflogaeth a dal eu gafael ar waith.

Themâu o'r arolygon

Mae llawer o gefnogaeth i'r rôl hon. Roedd **100%** o'r ymatebwyr yn cytuno fod y rôl hon yn angenrheidiol.

Ymatebodd **95%** eu bod yn cytuno'n gryf/cytuno bod y rôl hon yn bwysig

Roedd **96%** yn cytuno â'r datganiad "Mae'r rôl hon yn cyfrannu at waith aml-asiantaeth"

Dywedodd **96%** fod y Gweithiwr Anabledd Teulu yn eirioli ar ran teuluoedd. Maen nhw'n:

- grymuso rhieni/gofalwyr
- cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd
- cynnig cymorth 'gwerthfawr' i deuluoedd.

Roedd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod eu rôl yn un sy'n hybu cymorth cadarnhaol a gwrth-ormesol i deuluoedd.

Roedd y rhan fwyaf yn teimlo:

- bod dealltwriaeth dda o'r rôl hon.
- bod y rôl wedi cynorthwyo i 'wneud eu bywyd yn well'.
- bod y rôl wedi cynorthwyo i'w grymuso yn eu rôl rhianta/gofalu.

Themâu o'r Cyfweiliadau

Mae cyfranogwr chwech yn cynnig crynodeb da o'r rôl: -

Well, I think it's very good because they are there to make sure that people are accessing the right services, that they're being supported in the right way and that person has got someone that they can go to sort out things for them. They're obviously specifically, you know, dealing with people with disabilities um because sometimes- I know sometimes people may have other things wrong with them, but they've never talked about it or they've never gone to the right professionals. So this is making sure that they're accessing the right treatments as well.

I think it's going [rôl y GAT] to be able to give them [rôl y GAT] more knowledge about what exactly is going on with the family, because if you've got somebody in there who is a specialist working with the family, you're going to get more knowledge and more information out that they can share and maybe process and take further, you know, to get them the help that they need, really. So ... I think they're going to be really good roles to have. It's going to be an asset, I think, to the family workers.


Amlygwyd hefyd y syniad o ddatblygu rôl y **Gweithiwr Anabledd Teulu** fel rhan allweddol o gymorth aml-asiantaeth, i wella a datblygu cymorth cyson i deuluoedd er mwyn cynnig sicrwydd ac eiriolaeth i rieni.

For me, their role is to bring all the services together, to see what the needs of those families are and rather than having twenty million people involved, maybe to coordinate it, but obviously to get the right support at the right time for that family. To intervene, really, where needed and be a regular ... support for that family. (Cyfranogwr 8).

Anghenion Ilesiant

Dywedodd llawer o bobl fod anghenion plant penodol a'u teuluoedd yn 'disgyn drwy'r rhwyd' gan gynnwys anghenion Ilesiant. Teimlid y gallai rôl y Gweithiwr Anabledd Teulu helpu i atal hynny.


Trafododd llawer o bobl Ilesiant, atal ac arfer seiliedig ar gryfderau. Mae crynodeb o'r trafodaethau hyn i'w weld yn y model isod.



Anghenion asesu a chymorth

Mae'r Gweithiwr Anabledd Teulu a'r offer asesu mae'n eu defnyddio yn annog sgwrs gyda theuluoedd ac yn helpu i gefnogi cynlluniau i ddiwallu eu hanghenion.


Mae anghenion y teulu yn gymhleth ac yn wahanol iawn. Fe'u disgrifiwyd fel rhai sy'n troi o amgylch tri chylch allweddol o ddigwyddiadau:



Anghenion gwybodaeth ac arweiniad

Roedd y cylch hwn o ddigwyddiadau yn aml yn golygu bod angen cymorth ac arweiniad ar rieni/gofalwyr.

Pyramid
cymorth rhiant/
gofalwr



Cymorth i gael mynediad at wasanaethau arbenigol:

Cymorth i ymdopi â rhestr aros hir i gael asesiadau iechyd arbenigol


Cymorth i wneud y gorau o hawliau:

Cymorth i gael mynediad at fudd-daliadau tai a lles priodol

Mynediad i'r gymuned: Cymorth i gael gwared ar stigma, cywilydd a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth cymunedol: i osgoi unigrwydd ac ynysigrwydd

Cymorth gyda thasgau 'Bob dydd': Cymorth gyda siopa, rheoli arian a dod yn annibynnol

Pyramid
dealltwriaeth
rhieni/gofalwyr



Roedd angen cymorth ar rieni/gofalwyr i ddeall anghenion eu plentyn a'r cerrig milltir datblygiad.



Cryfderau allweddol rôl y Gweithiwr Anabledd Teulu



I'r plentyn a'r teulu

Mae Cyfranogwr 25 yn crynhoi pwysigrwydd y Gweithiwr Anabledd Teulu:

You know, I just think that they're the go-to person, especially when we're trying to make sure that the child's needs are being met or if we've got any worries about whether the child's needs are being met. I just feel like they potentially are gonna be you know, the most important person to pull all of us individual people together.

Thema euraidd ar draws y data oedd y 'bont' bosibl y gallai'r Gweithiwr Anabledd Teulu ei hadeiladu rhwng rhieni/gofalwyr a gwasanaethau. Mae'r 'bont' hon yn helpu i adeiladu ac ymestyn llwybr ar draws yr holl wasanaethau.



I gydweithwyr

Disgrifiwyd cydweithio â'r Gweithiwr Anabledd Teulu fel rhywbeth oedd yn rhoi "mwynhad" (Cyfranogwr 23) ac oedd yn

"cynnig cyfraniad enfawr i deuluoedd o'u safbwynt nhw" (Participant 25).

Mae Cyfranogwr 2 yn amlygu'r 'gwerth ychwanegol' y mae'r rôl yn ei gynnig:

Having worked very closely alongside one of the family disability support workers, just the additional- you know, the added value that they've been able to provide to supporting particularly some of the really complex families that we've worked with has been absolutely invaluable.



Cysylltu â Chanolfannau Teulu

O ganlyniad, tynnodd sawl un o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith ei bod yn haws mynd at y canolfannau teulu a'u bod yn cynnig cymorth sy'n:

- "rhagweithiol, yn berson-ganolog ac sy'n seiliedig ar werthoedd" (Cyfranogwr 4),
- "meddwl y tu allan i'r boes" (Cyfranogwr 5)
- "grymuso rhieni i gymryd yr awenau" (Cyfranogwr 25).



Casgliad

Y thema allweddol yw bod y cymorth ymarferol ac emosiynol y mae'r Gweithiwr Anabledd Teulu'n ei gynnig a'i roi i rieni/gofalwyr yn gwella gallu rhieni i reoli straen o ddydd i ddydd. Maent yn helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau ac ystyried eu hanghenion llesiant eu hunain.

Roedd y grymuso a'r eiriolaeth person-ganolog y mae'r Gweithiwr Anabledd Teulu yn eu cynnig a'u teilwra wedi mynd i'r afael â bwlch hirsefydlog mewn gwasanaethau.

Mae'r canlyniadau i'r teuluoedd hyn wedi bod yn gadarnhaol o ran eu llesiant cyffredinol, gan eu cefnogi'n aml i fynd i'r afael â rhwystrau hirsefydlog ac i'w dileu.

Disgrifiwyd y Gweithiwr Anabledd Teulu hefyd yn glir fel rôl a oedd yn canolbwyntio ar ymarfer seiliedig ar gryfderau, ac yn cynnig cymorth a oedd yn adeiladu ar alluoedd pob teulu.



Argymhellion

O'r gwerthusiad hwn, argymhellwyd ein bod yn:

- datblygu rôl y Gweithiwr Anabledd Teulu ar draws Conwy
- rhoi mwy o allu i'r Gweithwyr Anabledd Teulu gefnogi plant anabl a'u teuluoedd fel rhan o'r timau aml-asiantaeth.

Dylai'r adroddiad hwn fod ar gael i bobl ei ddarllen, felly argymhellir ein bod yn:

- sicrhau bod yr adroddiad hwn ar gael mewn llawer o fformatau gwahanol gan gynnwys adroddiad hawdd ei ddarllen
- dylunio a chyflwyno gweithdai i blant ag anabledd, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol er mwyn cyflwyno canlyniadau'r ymchwil
- cynhyrchu set sioe sleidiau sy'n cyfleu canlyniadau'r adroddiad
- anfon negeseuon Twitter yn cyfathrebu canlyniadau'r gwaith, y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phrifysgol Bangor eu rhannu a'u defnyddio.

Argymhellir hefyd ein bod yn:

- datblygu Pecyn Cymorth Llesiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, plant ag anabledd a'u teuluoedd
- datblygu hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Llesiant.